



Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru



gonorthwales.co.uk
llechi.cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government




Dynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, Gwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2021. Mae'n eiddo â chwe rhan: Dyffryn Ogwen; Chwarel Dinorwig; Dyffryn Nantlle; Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor; Ffestiniog & Porthmadog ac Abergynolwyn & Tywyn, gyda phob un yn cwmpasu chwarel a cheudyllau creiriol, safleoedd archeolegol yn ymwneud â prosesu llechi, aneddiadau hanesyddol, gerddi hanesyddol a plastai mawreddog, porthladdoedd, phlastai a cheiau, a rheilffyrdd a systemau ffyrdd yn yn arddangos cysylltiadau ymarferol a chymdeithasol y tirwedd ddiwydiannol creiriol. Mae'n cynnwys tirweddau chwarel ysbennydd megis Penrhyn, Dinorwig, Dyffryn Nantlle a Ffestiniog. Mae hefyd yn cynnwys yr Amgueddfa Llechi yn Llanberis, Castell Penrhyn a reilffyrdd enwog y Ffestiniog a Thalyllyn, wedi eu hadeiladu i gludo'r llechi o'r chwarel i farchnadoedd ledled y byd a thrawsnewidiwyd y ddau yn ddiweddarach i reilffyrdd treftadaeth.

Mae'r tirwedd yn adrodd stori anhygoel esblygiad cymdeithas amaethyddol yr ucheldir i un sy'n cael ei ddomynddu gan y diwydiant llechi; gyda threfi, chwarel a chysylltiadau trafniadaeth yn cerfio eu ffordd drwy fynyddoedd Eryri i lawr tuag at y porthladdoedd eiconig.

I ddsygu mwy am y tirwedd llechi fedrwrch ddilyn ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnder hanes neu ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

- 01 Mae'r **Ganolfan Rheolaeth, Bangor** yn cynnig 56 o ystafelloedd en-suite arddull gwesty gradd 4 Seren Croeso Cymru. Wedi'i leoli yng nghanol Eryri, Gogledd Cymru, mwynhewch olygfeydd godidog o'r Fenai ac Ynys Môn.
- 02 **Porth Penrhyn**, Abercegin sydd ym mhen dwyreiniol Culfor y Fenai sy'n gwahanu Ynys Môn oddi wrth dir mawr Cymru oedd gynt o bwysigrwydd mawr fel y prif borthladd ar gyfer allforio llechi o Chwarel y Penrhyn, y chwarel llechi fwyaf yn y byd yn niwedd bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd, ac ehangwyd yn ddiweddarach, gan y teulu Pennant (Douglas-Pennant yn ddiweddarach) o Gastell Penrhyn gerllaw. Mae Porth Penrhyn yn parhau i gael ei ddefnyddio fel porthladd masnachol gweithredol ac yn dal i gael ei ddefnyddio i allforio llechi.
- 03 **Castell Penrhyn** Saif y castell neo-Normanaid hwn o'r 19eg ganrif rhwng Eryri a'r Fenai. Mae'r bensaerniaeth unigryw, tu mewn moethus a chasgliad celfyddyd gain yn cyd-fynd â hanes ffawd siwgr a llechi, o aflonyddwch cymdeithasol a'r anghydfod diwydiannol hiraf yn hanes Prydain. Mae'n orlawn o eitemau hynod ddiddorol, fel gwely un tunnell wedi'i wneud o lechi ar gyfer y Frenhines Victoria, cerfiadau cywrair, gwaith plastr a dodrefn ffug-Normanaid.

Roedd Streic Fawr Chwarel lechi y Penrhyn 1900 i 1903, yn benllanw nifer o flynyddoedd o anffodlonrwydd ac aflonyddwch yn y diwydiant chwarel yn Nyffryn Ogwen. Roedd yr anghydfod yn canolbwyntio ar hawliau Undeb, cyflog ac amodau gwaith. Brwydr chwerw oedd hi rhwng Arglwydd Penrhyn a gweithwyr y chwarel lechi, a rwygodd gymuned a newid y rhan yma o Ogledd Cymru am byth.
- 04 **Taith dywys o Gastell Penrhyn i Lanberis** gan aros yn Bethesda ar y ffordd am sgwrs gan y Tywysydd ynghylch yr ardal a'i gysylltiadau â'r diwydiant Llechi.
- 05 **Gwesty'r Royal Victoria**, Llanberis - Mwynhewch ginio hamddenol ym Mwyty Padarn, sydd wedi'i enwi er anrhydedd i lyn eiconig Llanberis. Mae Bwyty'r Padarn yn edrych dros erddi'r gwesty gyda golygfeydd pell o'r llyn â'r un enw.
- 06 **Amgueddfa Lechi, Llanberis** - Mae Amgueddfa Lechi wedi'i leoli yn y Gilfach Ddu, gweithdai'r 19eg ganrif Chwarel Dinorwig, o fewn Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd. Mae'r amgueddfa yn ymroddedig i gadw ac arddangos creiriau o'r diwydiant llechi yng Nghymru sydd hefyd yn cynnwys arddangos hollti llechi, tai chwarelwyr ac olwyn ddŵr enfawr. O streiciau a dioddefaint i grefftwaith a chymuned, mae hwn yn gyfle unigryw i gael cipolwg ar fywydau'r chwarelwyr a'u teuluoedd. Mae yna hefyd gaffi a siop anrhegion ar y safle.
- 07 **Chwarel Dinorwig** - Taith Gerdded - yn cael ei threfnu gan y tywysydd taith ar y diwrnod - (angen esgidiau addas).
- 08 **Gwesty Plas Dinas**, Bontnewydd - Gynt yn gartref i'r teulu hynod Armstrong-Jones, mae gan y gwesty ddeg o ystafelloedd gwely mewn steil unigol gyda chysuron pum seren, mewn arddull hanesyddol ac amgylchedd hamddenol.



Diwrnod Un - Dyffryn Peris/Dyffryn Ogwen

Archwiliwch hanes a diwylliant cyfoethog Gogledd Cymru trwy ei diwydiant lechi Cymreig. Taith yn ôl mewn amser i ddysgu am ddyfodiad chwareli a diwylliant bywiog cymunedau, pob un ohonynt wedi llunio tirwedd ôl-ddiwydiannol yr ardal. Dilynwch ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnderoedd hanes neu fe allwch ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

TEITHLEN

Aros dros nos yn y Ganolfan Rheolaeth, Bangor

Llety i Westeion  ★★★★★ (Sat Nav LL57 2DG)

09.30 - 10.30

Taith Dywys ym **Mhorth Penrhyn**

10.30 - 10.35

Trosglwyddo i Gastell y Penrhyn
(Sat Nav LL57 4HN)

10.35 - 12.15

Tirwedd a Castell y Penrhyn

Sicrwydd
Ansawdd 

Coffi yn yr Ystafell De

12.15 - 13.00

Trosglwyddo i Lanberis gan aros yn
Bethesda i ddysgu am y dreftadaeth llechi
yn y dref gyda Tywysydd
(Sat Nav LL57 3AR)

13.00 - 14.00

Cinio yng Ngwesty'r Royal Victoria,
Llanberis

Gwesty  ★★★★★ (Sat Nav LL55 1TY)

14.00 - 15.30

Amgueddfa Lechi, Llanberis

Sicrwydd
Ansawdd  (Sat Nav LL55 4TY)

Coffi yng nghaffi'r Amgueddfa Lechi

15.30 - 16.30

Taith Gerdded Chwarel Dinorwig
gyda Tywysydd

Dros Nos

**Gwesty Gwledig Plas Dinas,
Bontnewydd**

Gwesty  ★★★★★ (Sat Nav LL54 7YF)

Cinio nos yn y **Gun Room**
neu fel arall

Gwesty'r Celt, Caernarfon

Gwesty  ★★★★★ (Sat Nav LL55 1AY)

Cinio Nos yn y **Black Boy Inn, Caernarfon**

Tafarn  ★★★★★ (Sat Nav LL55 1RW)



I archebu cysylltwch a
croeso@gonorthwales.org.uk
neu **01492 531731**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

